



NODDWR/PATRON: EI UCHELDER BRENHINOL TYWYSOG CYMRU/ HRH THE PRINCE OF WALES

Cofnodion, heb eu cadarnhau, o'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a gynhaliwyd yng Nghymdeithas Feddygol Llundain, 11 Chandos Street, Llundain, W1G 9EB ar ddydd Mawrth, 14 Mai 2013, gyda'r Llywydd, yr Athro Prys Morgan yn y gadair a 32 yn bresennol.

1. Ymddiheuriadau – derbyniwyd ymddiheuriadau odd wrth 7 o aelodau.

2. Cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol 6 Mai 2012

Dosbarthwyd y cofnodion ac ar gynnig Ceridwen Roberts, a eiliwyd gan Elinor Delaney, fe'u derbyniwyd gan y Cyfarfod.

3. Adroddiad Blynyddol y Cyngor

Dosbarthwyd y yr adroddiad a chyflwynwyd yr adroddiad, gan yr Ysgrifennydd Mygedol. Ar gynnig John Elliott, a eiliwyd gan Thomas Charles-Edwards, derbyniwyd yr adroddiad gan y Cyfarfod.

4. Adroddiad Blynyddol y Trysorydd Mygedol

Cyflwynwyd y Datganiadau Cyllidol am y flwyddyn yn terfyn 31 Rhagfyr 2013 gan y Trysorydd Mygedol. Cafodd y Datganiadau eu hardystio gan yr Arholwyr Annibynnol, Lewis & Co, Cyfrifyddion Siartredig. Ar gynnig Elizabeth Allen, a eiliwyd gan Thomas Charles-Edwards, fe'u cytunwyd a'u mabwysiadwyd gan y Cyfarfod.

5. Etholiadau

5.1. Llywydd

Ar gynnig Arwyn Lloyd Hughes, a eiliwyd gan Stuart Cole, ail-etholwyd yr Athro Prys Morgan fel Llywydd y Gymdeithas.

5.2 Is-Lywyddion

Ar gynnig Jenkin Thomas, a eiliwyd gan Gwenda Sippings, ail-etholwyd yr Is-Lywyddion presennol.

5.3 Aelodau'r Cyngor

Ar gynnig John Samuel, a eiliwyd gan John Elliott, ail-etholwyd Rhian Davies, Ken Kyffin, Adrian Morgan a Jenkin Thomas i wasanaethu ar y Cyngor am gyfnod o dair blynedd. Ar gynnig Gwenda Sippings, a eiliwyd gan Huw Wynne-Griffith, etholwyd Dr Sara Elin Roberts i wasanaethu ar y Cyngor am gyfnod o dair blynedd. Nid oedd Clive Jones-Davies, D Ben Rees a Cecil Roberts wedi ceisio ail-etholiad eleni a chyflwynwyd diolch y Cyfarfod iddynt am eu cyfraniad i'r Gymdeithas yn ystod eu cyfnod ar y Cyngor.

6. Arholwr Annibynnol

Ar gynnig Cecil Roberts, a eiliwyd gan Huw Wynne-Griffith, apwyntiwyd yr Athro Richard Lewis, o Lewis & Co fel yr arholwr annibynnol am y flwyddyn canlynol. Cyflwynwyd diolch a gwerthfawrogiad y Cyfarfod i E Glyn Hughes am ei gyfraniad fel arholwr annibynnol dros blynnyddoedd lawer a dymunwyd yn dda iddo ar ei ymddeoliad.

7. Diolchiadau.

Diolchwyd gan y Llywydd, y nifer o wirfoddolion a hwylusodd gwaith y Gymdeithas yn ystod y flwyddyn, yn enwedig y swyddogion.

8. Unrhyw Faterion Eraill

Ni godwyd unrhyw faterion ychwanegol a daeth y Cyfarfod i ben am 6.30yh.

Peter Jeffreys

Ysgrifennydd Mygedol.